# Rhestr wirio i fyfyrwyr newydd

Llongyfarchiadau am gael lle gyda ni.
Mae'r rhestr wirio hon wedi'i chynllunio er mwyn eich helpu i gwblhau'r tasgau a argymhellir i fyfyrwyr newydd.

## Cyn cyrraedd

*Tasgau hanfodol*

- [ ] Sicrhau bod eich cyllid wedi'i drefnu, bod gennych arian ar gyfer Wythnos y Glas a'ch bod wedi meddwl am sut y byddwch yn cyllido'n effeithiol yn ystod eich bywyd fel myfyriwr.
- [ ] Cwblhau eich ymrestru ar-lein a thalu eich ffioedd dysgu.
- [ ] Rhoi gwybod i ni os oes gennych anabledd, cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor, neu anhawster dysgu penodol.
- [ ] Gwneud cais am le yn un o breswylfeydd y Brifysgol neu drefnu llety preifat.
- [ ] Gwneud yn siŵr eich bod wedi cael y brechiadau diweddaraf a argymhellir a'ch bod wedi'ch imiwneiddio.

*Tasgau a argymhellir*

- [ ] Cofrestru ar gyfer Ras Hwyl Bywyd y Myfyrwyr.
- [ ] Cofrestru i ddysgu iaith newydd.
- [ ] Cysylltu â @StudentLifeCU ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn cael eich diweddaru am wybodaeth a digwyddiadau pwysig Wythnos y Glas.

## Pan fyddwch yn cyrraedd

*Tasgau hanfodol*

- [ ] Darganfod ble a phryd i gasglu eich allweddi er mwyn symud i breswylfeydd y Brifysgol.
- [ ] Casglu eich cerdyn preswyl.
- [ ] Casglu eich cerdyn adnabod.
- [ ] Manteisio ar eich tanysgrifiad rhad ac am ddim i Microsoft Office drwy fynd ar-lein.
- [ ] Cofrestru gyda'ch Ysgol a mynd i ddigwyddiadau ymrestru.
- [ ] Cofrestru gyda Meddyg Teulu a Deintydd.
- [ ] Gwirio eich cyfrif ebost i fyfyrwyr yn

*Tasgau a argymhellir*

- [ ] Dod o hyd i'ch Canolfan Cefnogi Myfyrwyr agosaf ac edrych ar y gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael i chi.

Os ydych yn fyfyriwr Gofal Iechyd neu'n fyfyriwr Rhyngwladol, darllenwch y wybodaeth ychwanegol ar y tudalennau newydd i fyfyrwyr.



**Rhagor o wybodaeth:**

**cardiff.ac.uk/cy/new-students**